



## CYNGOR TREF CAERFYRDDIN – DATGANIAD I’R WASG/EITEM NEWYDDION

### FELODROM CAERFYRDDIN – ENWEBU AM WOBR

Mae Felodrom Caerfyrddin a ailddatblygwyd yn ddiweddar wedi cyrraedd rhestr fer gwobrau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru (RICS).

Mae’r gwobrau yn tynnu sylw at brosiectau sy’n gwneud cyfraniad cadarnhaol i Gymru ac eleni enwebwyd cynlluniau o wahanol feintiau a chost o bob cwr o’r wlad.

Dywedodd Cadeirydd panel beirniaid Gwobrau RICS, Phil Johns: “Mae ymarferwyr ym maes eiddo ac adeiladwaith yng Nghymru yn parhau i gyflawni prosiectau adeiledig o’r radd flaenaf, o safon fyd-eang yn aml, sy’n cael effaith bositif tu hwnt ar ein dinasoedd a’n trefi.

“Mae’n bleser gen i weld cynifer o’r cynlluniau adeiledig hyn ar y rhestr fer eleni am Wobrau RICS, Cymru. Mae dawn a sgiliau eithriadol y timau a’r syrfewyr y tu ôl i’r cynlluniau hyn yn ddim llai nag anhygoel, a dymunaf bob lwc iddyn nhw i gyd i gael y gydnabyddiaeth maen nhw’n ei haeddu am sicrhau fod eu cymunedau lleol yn aros yn llefydd ardderchog i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.”

Bydd wyth enillydd categori a Phrosiect y Flwyddyn Cymru yn cael eu dewis o’r rhestr fer a’u datgelu mewn seremoni wobrwyo ar Fai 23 yng ngwesty’r Radisson Blu yng Nghaerdydd.

Mae’r categorïau yn cynnwys: Cadwraeth Adeiladu, Eiddo Masnachol, Budd Cymunedol, Dylunio drwy Arloesi, Adfywio, Preswyl, Twristiaeth, Hamdden, ac Isadeiledd. Bydd pob un o enillwyr y categorïau yn mynd ymlaen i gystadlu yn erbyn enillwyr rhanbarthol eraill yn Rownd Derfynol genedlaethol yr RICS ym mis Tachwedd 2018, am siawns i gael eu coroni’n enillydd y DU yn eu categori.

Agorwyd y trac seiclo rhestredig sy’n chwarter milltir concrit, addas i bob tywydd, yn 1900, ac roedd angen ei adfer a’i adnewyddu’n llwyr. Trwy bartneriaeth rhwng Cyngor Tref Caerfyrddin, Cyngor Sir Gâr, Beicio Cymru a Chwaraeon Cymru, rhoddwyd bywyd newydd i’r adnodd hwn.

Meddai Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Alun Lenny: 'Rydym wrth ein bodd fod Prosiect Ailddatblygu'r Felodrom o dan arweiniad Cyngor Tref Caerfyrddin wedi cael ei roi ar y rhestr fer i'r wobr bwysig hon gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) yng Nghymru.

Fel aelod o'r Grŵp Prosiect a oedd yn goruchwyllo ailddatblygu Felodrom Fictoraidd Caerfyrddin, rwy'n gwybod pa mor heriol oedd y gwaith a bu'n bleser yn wir gweld sut mae'r holl waith caled a wnaed yn ystod y prosiect wedi arwain at lawer mwy o bobl yn defnyddio'r felodrom erbyn hyn ers iddo gael ei ailagor mis Hydref diwethaf.

'Roeddwn yn ffodus iawn i fod ymhlith tîm o arbenigwyr yn elfennau gwahanol y gwaith a gwelais â'm llygad fy hun yr heriau technolegol a logistaidd yr oedd yn rhaid i'r tîm eu goresgyn. Chwaraewyd rhan hanfodol gan Carl Morgan, y Syrfêwr Cadwraeth a benodwyd gan Gyngor Tref Caerfyrddin i reoli agweddau arbenigol y gwaith a sicrhau fod y cyfleuster newydd yn cael ei ddylunio a'i adeiladu mewn ffordd a oedd yn diogelu treftadaeth y trac seiclo gwreiddiol - adeilad rhestredig - a hefyd yn cadw nodweddion unigryw Parc Caerfyrddin sydd wrth gwrs yn ardal gadwraeth.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ganlyniad y broses hon ond beth bynnag sy'n digwydd, gallwn ymfalchïo yn wir yn yr adnodd sydd gennym bellach yng Nghaerfyrddin'.



**Alun J Harries – Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin  
20 Chwefror 2018**